# Datganiad Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Y Berllan Deg 2025-2026

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2025 i 2026.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

### Trosolwg

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | YSGOL Y BERLLAN DEG |
| Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol | 389 |
| Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD | 6.4% |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | Medi 2025 |
| Dyddiad y caiff ei adolygu | Medi 2026 |
| Awdurdodwyd y datganiad gan | Pwyllgor Cyllid y Llywodraethwyr |
| Yn arwain ar y GDD | Mari Phillips (Pennaeth) |
| Llywodraethwr sy'n arwain | Wyn Griffiths (Cadeiryddd y Llywodraethwyr) |

## Trosolwg Cyllid

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn ariannol 2025/2026 | £16,100 |
| Dyraniad cyllid GDD y Blynyddoedd Cynnar y flwyddyn ariannol 2025/2026 | £4,600 |
| | |
| **Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academaidd hon** | £20,700 |

## Rhan A: Cynllun Strategaeth

### Datganiad o fwriad

| |
|---|
| *Mae'r Grant Datblygu Dysgu yn swm ychwanegol o arian sydd yn cael ei ddyrannu i ysgolion i gefnogi disgyblion a all fod o dan anfantais oherwydd eu statws economaidd neu os ydynt mewn gofal. Yn Ysgol Y Berllan Deg rydym yn gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD) trwy ddyrannu yr arian i 3 categori, sef:-*<br><br>• *Academaidd*<br>• *Cyfoethogi*<br>• *Lles* |

### Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

| Canlyniad a fwriedir | Meini prawf llwyddiant |
|---|---|
| ACADEMAIDD<br>Rydym yn defnyddior'r GDD i leihau bylchau cyflawniad dysgwyr agored i niwed drwy'r canlynol i sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i gyrraedd ei lawn botensial:-<br>• Buddsoddi mewn adnoddau sydd yn datblygu addysg ein disgyblion e.e. Darllen co,Sumdog<br>• Adnabod anghenion disgyblion bregus gan sicrhau fo d y disgyblion hyn yn derrbyn ymyraethau pwrpasol a pherthnasol | • Pob disgybl, yn enwedig disgyblion PYDd, yn cael y cyfle gorau posib i gyrraedd ei lawn botensial<br>• Pob disgybl, yn enwedig disgyblion PYDd, yn datblygu sgiliau yn unol â'u hoedran<br>• Ymyraethau penodol weri eu cynllunio ac yn cael eu gwerthuso yn effeithiol ar gyfer pob disgybl, yn enwedig y disgyblion PYDd a rhai sydd yn agored i niwed |
| CYFOETHOGI<br>• Rydym yn defnyddio peth o'r grant GDD pan fo angen i gynorthwyo gyda chostau ymweliadau a gwersi offerynnol | • Pob disgybl, yn enwedig y rhai PYDd, i yn cael yr un cyfleoedd a phrofiadau beth bynnag fo'u cefndir a'u sefyllfa personol |
| LLES<br>Rydym yn defnyddior'r GDD i :-<br>• Hyfforddi staff i allu gweithredu rhaglenni Talkabout ac ELSA | • Pob disgybl , yn enwedig y rhai PYDd, yn cael y cymorth emosiynol sydd ei angen arnynt pan fo'r galw<br>• Pob disgybl, yn enwedig y rhai PYDd, yn datblygu gwytnwch, ac yn datblygu eu sgiliau cymdeithaol a chydweithio er mwyn codi hunan hyder a hunan barch |
| | |

**Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd 2025/2026**

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

**Dysgu ac addysgu**

Cost wedi'i chyllidebu: £20,700

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Cyflogi cynorthwywr dysgu sydd yn gallu darparu ymyraethau academaidd ac emosiynol | • Cynnydd i'w weld yng ngwaith a chyrhaeddiad y disgyblion<br>• Data a gwerthusiadau ymyraethau yn dangos bod y disgyblion wedi gwneud cynnydd oherwydd yr ymyraethau |

**Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)**

Cost wedi'i chyllidebu: *Grant wedi ei dderbyn gan Menter Caerdydd*

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Gweithdai i rieni ar ddarllen | Mwy o rieni o bob cefndir yn teimlo eu bod yn gallu helpu eu plant gartref gyda'u darllen |
| *Gweithdai i rieni ar sut i goginio prydau iach ar gyllideb* | Mwy o rieni o bob cefndir yn teimlo eu bod yn gallu darparu prydau iach ar gyllideb i'w teuluoedd |

**Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)**

Cost wedi'i chyllidebu: £20,700 fel uchod

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| Cyflogi cynorthwyydd lles | Adborth disgyblion a rhieni yn dangos bod sesiynau lles emosiynol (Talkabout/ELSA/Therapi Lego/Straeon Cymdeithasol) yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y disgyblion sydd angen cymorth penodol |
| | |

Cyfanswm cost y ceisiadau: £20,700 yn gyfanswm i gyfraniad cost staffio yr holl ymyraethau

## Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

### Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2024 i 2025.

| Gweithgarwch | Effaith |
|---|---|
| Cyflogi cynorthwywyr sydd yn gallu darparu ymyraethau academaidd | • Cynnydd i'w weld yng ngwaith a chyrhaeddiad y disgyblion<br>• Data a gwerthusiadau ymyraethau yn dangos bod y disgyblion wedi gwneud cynnydd oherwydd yr ymyraethau |
| Cyflogi cynorthwywyr sydd yn gallu darparu ymyraethau emosiynol | • Adborth disgyblion a rhieni yn dangos bod sesiynau lles emosiynol (Talkabout/ELSA/Therapi Lego/Straeon Cymdeithasol) yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y disgyblion sydd angen cymorth penodol |

### Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

| Rhaglen | Darparwr |
|---|---|
| Ymyrraeth darllen  Darllen Co (pontio'r dysgu rhwng yr ysgol a'r cartref) | Alex Knott |
| Rhaglen mathemateg arlein Sumdog (pontio'r dysgu rhwng yr ysgol a'r cartref) | eEducation Albert |
| Traciwr (rhaglen arlein i dracio cynnydd disgyblion yn enwedig disgylblion PYDd) | PRODEO Ltd |